Arwyr – CA5

Tasg 4: Ysgrifennu creadigol

Yn y gerdd 'Dydi Arwyr ddim yn Marw', a sylwoch chi sut y mae'r darn agoriadol a'r darn clo mewn arddull wahanol i'r darn canol?

Yn y darnau hyn, mae'r llinellau'n fwy rhythmig ac mae'r bardd yn rhoi sylw i dechnegau fel cyflythrennu ayb. Mae'r darn canol yn llai tyn ei wead, a'r brawddegau'n debyg i ryddiaith. Mae'r newid hwn fel pe byddai'n gweddu i'r newid yn y darlun a geir o Elvis. Ar y dechrau a'r diwedd mae'n cael ei bortreadu fel arwr 'go iawn'. Yn y darn canol, ceir portread o'i 'ddadfeilio'.

Ysgrifennwch gerdd neu ddarn o ryddiaith ar y thema **arwr/arwres** neu **arwyr**.

Rhowch **dair** rhan i'ch gwaith, a cheisiwch sicrhau bod rhan 1 a rhan 3 yn debyg mewn rhyw ffordd (thema, arddull, ayb) a rhan 2 yn hollol wahanol.